



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2002 Rhif 1895 (Cy.196)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Lwfansau i Aelodau Cynghorau
Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol
ac Awdurdodau Parciau
Cenedlaethol) (Cymru) 2002

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn darparu'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i awdurdodi neu ei gwneud yn ofynnol i unrhyw awdurdod perthnasol a bennir yn y Rheoliadau wneud cynllun sy'n darparu ar gyfer talu:

- lwfans sylfaenol i gynghorwyr; a
- lwfans presenoldeb i gynghorwyr; a
- lwfans cyfrifoldeb arbennig i gynghorwyr â chyfrifoldebau arbennig.

Mae'r pŵer hwn bellach wedi'i freinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999.

Mae adran 100 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Ddeddf 2000") yn darparu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau o ran lwfansau teithio a chynhaliaeth sy'n daladwy i aelodau awdurdodau perthnasol a ragnodir.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sir a bwrdeistrefi sirol (p'un a ydynt yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth yn unol â Deddf 2000 neu'n gweithredu trefniadau amgen yn unol ag adran 32(1) o Ddeddf 2000) ac Awdurdodau Parciau

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 No. 1895 (W.196)

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Local Authorities (Allowances
for Members of County and
County Borough Councils and
National Park Authorities) (Wales)
Regulations 2002

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Section 18 of the Local Government and Housing Act 1989 provides the power for the Secretary of State to authorise or require any relevant authority specified in the Regulations to make a scheme providing for the payment of:

- a basic allowance to councillors; and
- an attendance allowance to councillors; and
- a special responsibility allowance for councillors with special responsibilities.

This power is now vested in the National Assembly for Wales by virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999.

Section 100 of the Local Government Act 2000 ("the 2000 Act") provides for the National Assembly for Wales to make provision by regulations with respect to travelling and subsistence allowances payable to members of such relevant authorities as may be prescribed.

These Regulations require county and county borough councils (whether operating executive arrangements in accordance with the 2000 Act or alternative arrangements in accordance with section 32(1) of the 2000 Act) and National Park Authorities in Wales to

Cenedlaethol yng Nghymru wneud cynllun ar gyfer talu lwfansau mewn perthynas â'r flwyddyn gyfredol a'r blynnyddoedd dilynol.

Mae Rheoliad 3 yn rhagnodi'r cyngorau sir, y cyngorau bwrdeistref sirol a'r Parciau Cenedlaethol yn awdurdodau perthnasol at ddibenion adran 100(1) o Ddeddf 2000.

Mae Rheoliad 5 yn darparu os diddymir cynllun a wnaed o dan y rheoliadau hyn rhaid i awdurdod sicrhau bod cynllun pellach yn barod i fod yn effeithiol o ddyddiad unrhyw ddiddymiad o'r fath, tra bod Rheoliad 6 yn darparu y gall cynllun gael ei ddiwygio neu ei ddiddymu ar unrhyw adeg. Os diwygir cynllun gellir gwneud darpariaeth i'r hawl i lwfansau fod yn gymwys o ddechrau'r flwyddyn y gwneir unrhyw ddiwygiad ynddi.

Mae Rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol bod cynllun yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â "lwfans sylfaenol" i gynghorwyr. Un "lwfans sylfaenol" yn unig fesul aelod fydd yn daladwy o dan y cynllun. Mae Rheoliad 8 yn rhoi disgrifiwn i awdurdodau wneud darpariaeth ar gyfer "lwfansau cyfrifoldeb arbennig". Nodir y categoriâu y gellir eu defnyddio i dalu "lwfansau arbennig" yn Rheoliad 8(1). Nid yw lwfansau o'r fath yn daladwy, yn rhinwedd Rheoliad 8(2), i fwy na hanner aelodau awdurdod (a gyfrifir drwy gyfeirio at gyfanswm y seddau ar y cyngor). Mae hefyd yn caniatâu i gynghorau ddarparu ar gyfer swm ychwanegol o ddeg y cant i ddirprwy arweinydd cabinet neu i ddirprwy gadeirydd bwrdd fel rhan o lwfans cyfrifoldeb arbennig.

Mae Rheoliad 9 yn rhoi disgrifiwn i Awdurdod Parc Cenedlaethol ddarparu cynllun ar gyfer "lwfansau presenoldeb" i gynghorwyr mewn perthynas â "dyletswyddau a gymeradwywyd".

Mae Rheoliad 10 yn darparu i gynllun, a wneir gan gyngor sir neu fwrdeistref sirol, gynnwys "lwfans gofal" i aelodau mewn perthynas â chostau trefnu ar gyfer gofalu am blant (pymtheg oed neu lai) neu bobl ddibynol a dynnir wrth gyflawni dyletswyddau fel aelod.

Mae Rheoliad 11 yn darparu y bydd cynllun a wneir o dan Ran II yn darparu i unrhyw aelod o awdurdod nad yw'n gynghorydd gael taliad drwy "lwfans colled ariannol" nad yw'n fwy na swm unrhyw golled enillion a gafwyd neu gostau ychwanegol a dynnwyd yn ei rôl fel aelod.

Mae Rheoliad 12 yn ei gwneud yn ofynnol bod cynllun o dan Ran II yn pennu swm y "lwfans sylfaenol" neu ddull i ganfod y swm hwnnw a'r dull i ganfod hefyd unrhyw "lwfans cyfrifoldeb arbennig" (neu symiau gwahanol sy'n daladwy mewn perthynas â chyfrifoldebau arbennig). Mae Rheoliad 12 hefyd yn rhoi disgrifiwn i awdurdodau a fyddant yn cynnwys darpariaeth yn y cynllun a wneir o dan Ran II ar gyfer addasiad blynnyddol ar y lwfansau drwy gyfeirio at y mynegai hwnnw y gall yr awdurdod ei bennu.

make a scheme for the payment of allowances in respect of the current year and subsequent years.

Regulation 3 prescribes county, county borough councils and National Parks as relevant authorities for the purposes of section 100 (1) of the 2000 Act.

Regulation 5 provides that where a scheme, made under these regulations, is revoked an authority must ensure that a further scheme is in place to take effect from the date of any such revocation, whilst Regulation 6 provides that a scheme may be amended or revoked at any time. Where a scheme is amended provision may be made for entitlement to allowances to apply from the beginning of the year in which any amendment is made.

Regulation 7 requires a scheme to contain provisions relating to a "basic allowance" for councillors. Only one "basic allowance" per member shall be payable under a scheme. Regulation 8 gives authorities discretion to make provision for "special responsibility allowances". The categories, which may be used for the payment of "special allowances" are set out in Regulation 8(1). Such allowances are not payable, by virtue of Regulation 8(2), to more than half the members of an authority (calculated by reference to total seats on the authority). It also allows councils to provide for an additional sum of ten per cent to be paid to a deputy cabinet leader or a vice chair of a board as part of a special responsibility allowance.

Regulation 9 gives discretion to a National Park Authority to provide in a scheme for "attendance allowances" for councillors in respect of "approved duties".

Regulation 10 provides for a scheme, made by a county or county borough council, to include a "care allowance" for members in respect of expenses of arranging for the care of children (of fifteen or less) or dependants incurred in the carrying out of duties as a member.

Regulation 11 provides that a scheme made under Part II shall provide for any member of an authority who is not a councillor to receive a payment by way of "financial loss allowance" not exceeding the amount of any loss of earnings suffered or additional expenses incurred in their role as a member.

Regulation 12 requires that a scheme under Part II shall specify the amount of the "basic allowance" or a means to ascertain that amount and also the means to ascertain any "special responsibility allowance" (or different amounts payable in respect of special responsibilities). Regulation 12 also gives authorities discretion as to whether to include in a scheme made under Part II provision for the annual adjustment of allowances by reference to such index as the authority may specify.

Rhaid i gynllun o dan Ran II gynnwys darpariaeth i ganiatáu iaelod beidio â derbyn unrhyw ran o'r hyn y mae ganddo hawl iddo o dan y cynllun yn rhinwedd Rheoliad 13 a chaiff, o dan Reoliad 14 nodi'r amserau ar gyfer talu'r lwfansau (a all fod yn wahanol ar gyfer lwfansau gwahanol).

Mae Rheoliad 15 yn darparu ar gyfer talu costau teithio neu gynhaliaeth iaelodau, ar gyfraddau sydd i'w penderfynu bob blwyddyn. Mae'r cyfraddau hynny i'w cysylltu â'r cyfraddau sy'n daladwy i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau na chânt fod yn fwy na'r graddau a geir gan Aelodau'r Cynulliad. Mae hawliadau teithio a chynhaliaeth i gael eu gwneud ar sail "wirioneddol" a rhaid bod derbynebau perthnasol yn cyd-fynd â hwy am y costau a dynnwyd, yn ddarostyngedig i unrhyw ofyniad neu derfyn y penderfynir arnynt gan yr awdurdod.

Mae Rheoliad 16 yn darparu bod datganiad yn cyfynd â phob hawliad a wneir am lwfans presenoldeb, lwfans teithio, lwfans cynhaliaeth neu lwfans colled ariannol nad yw'r hawlydd wedi nac yn bwriadu gwneud unrhyw hawliad arall mewn perthynas â'r mater y mae'r hawliad yn berthnasol iddo. Mae hefyd yn atal taliadau o dan adran 176 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972") pan wneir taliadau o dan gynllun o dan Ran II o'r Rheoliadau hyn.

Mae Rheoliad 17 yn ymneud â lwfansau a wneir iaelodau panel apêl a luniwyd o dan baragraff 1 neu 2 o Atodlen 24 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Mae'n ofynnol i daliadau o'r fath gael eu talu gan yr awdurdod sy'n cynnal yr ysgol neu'r ysgolion y mae'r panel yn berthnasol iddynt.

Mae Rheoliad 18 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod gadw cofnod o unrhyw daliadau a wneir yn unol â'r Rheoliadau hyn neu unrhyw gynllun a wneir odanynt, gan roi manylion am y derbynnydd a natur y taliad. Dylai'r wybodaeth honno fod ar gael i'w harchwilio (yn ddi-dâl) gan unrhyw etholwr mewn llywodraeth leol. Gellir cael copïau wrth dalu ffi resymol i'r awdurdod.

Yn unol â Rheoliad 19 rhaid i unrhyw gynllun a wneir o dan y Rheoliadau hyn gael cyhoeddusrwydd yn ardal yr awdurdod cyn gynted ag y mae'n ymarferol ar ôl iddo gael ei wneud. Cyn gynted ag y mae'n ymarferol ar ôl diwedd blwyddyn y mae cynllun yn berthnasol iddi, rhaid i bob awdurdod gyhoeddi manylion o'r cyfanswm a dalwyd i bob aelod o dan y cynllun mewn perthynas â lwfansau sylfaenol, lwfansau cyfrifoldeb arbennig, lwfansau presenoldebau a lwfansau gofal.

Mae Rheoliad 20 yn darparu bod Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau'r Aelodau) 1991 ("Rheoliadau 1991") yn parhau i gael effaith mewn perthynas â hawliadau am ddyletswyddau a ddyddiwyd cyn 1 Ebrill 2002. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau penodol yn y Rheoliadau hyn diddymir Rheoliadau 1991. Mae hefyd yn eithrio cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac Awdurdodau Parciau

A scheme under Part II shall contain a provision to allow a member to forgo any part of their entitlement under the scheme by virtue of Regulation 13 and may, under Regulation 14, set out the times for payments of allowances to be made (which may be different for different allowances).

Regulation 15 provides for payment of travel or subsistence to members, at rates to be determined each year. Those rates are to be linked to rates payable to Members of the National Assembly for Wales in so far as they shall not exceed rates received by Assembly Members. Travel and subsistence claims (except claims relating to travel by private motor vehicle) are to be made on an "actual" basis and must be accompanied by relevant receipts for expenditure incurred, subject to any requirement or limitation determined by an authority.

Regulation 16 provides for all claims made for attendance allowance, travel allowance, subsistence allowance or financial loss allowance to be accompanied by a statement that the claimant has not and will not make any other claim in respect of the matter to which the claim relates. It also prevents payments under section 176 of the Local Government Act 1972 ("the 1972 Act") where payments are made under a scheme under Part II of these Regulations.

Regulation 17 relates to allowances made to members of an appeal panel constituted under paragraph 1 or 2 of Schedule 24 to the School Standards and Framework Act 1998. Such payments are required to be paid by the authority, which maintains the school, or schools, to which the panel relates.

Regulation 18 requires every authority to keep a record of any payments made in accordance with these Regulations or any scheme made under them, giving details of the recipient and the nature of the payment. That information should be available for inspection (free of charge) by any local government elector. Copies of the information may be obtained for payment of a reasonable fee to an authority.

In accordance with Regulation 19 any scheme made under these Regulations must be publicised in the authority's area as soon as practical after it is made. As soon as practicable after the end of a year to which a scheme relates, each authority shall publish details of the total sum paid under the scheme to each member in respect of basic, special responsibility, attendance and care allowances.

Regulation 20 provides that the Local Authorities (Members' Allowances) Regulations 1991 (the 1991 Regulations") continue to have effect in relation to claims for duties predating 1st April 2002. Subject to certain provisions in these Regulations the 1991 Regulations are revoked. It also excludes county and county borough councils and National Park authorities from the effects of sections 174, 175 and 177 of the

Cenedlaethol rhag effeithiau adrannau 174, 175 a 177 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Addesir adran 176 (Talu costau ymweliadau swyddogol ac ymweliadau cwrteisi, a.y.y.b) o Ddeddf 1972 wrth ei chymhwysio i awdurdodau sir, awdurdodau bwrdeistref sirol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Local Government Act 1972. Section 176 (Payment of expenses of official and courtesy visits, etc) of the 1972 Act is modified in its application to county, county borough and National Park authorities.

2002 Rhif 1895 (Cy.196)**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Lwfansau i Aelodau Cynghorau
Sir a Chynggorau Bwrdeistref Sirol
ac Awdurdodau Parciau
Cenedlaethol) (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud

18 Gorffennaf 2002

Yn dod i rym

9 Awst 2002

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 18(1), (2), (2A), (3), (3A) a (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(a) sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(b) a'r pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 100(1) a 105 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(c):

RHAN I

Cyffredinol

Enwi, cychwyn a chymhwysyo

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynggorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 9 Awst 2002.

(2) Mae'r rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli**2. Yn y Rheoliadau hyn -**

mae "aelod" ("member") yn cynnwys aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor;
ystyr "awdurdod" ("authority") yw cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu awdurdod Parc Cenedlaethol;

- (a) 1989 p.42. Mewnosodwyd adran 18(3A) gan adran 99(3), (7) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p. 22).
(b) *Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999* (O.S. 1999/672).
(c) 2000 p. 22.

2002 No. 1895 (W.196)**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

The Local Authorities (Allowances
for Members of County and
County Borough Councils and
National Park Authorities) (Wales)
Regulations 2002

Made

18th July 2002

Coming into force

9th August 2002

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers given to the Secretary of State by section 18(1), (2), (2A), (3), (3A) and (4) of the Local Government and Housing Act 1989(a) which are now vested in the National Assembly for Wales so far as exercisable in Wales (b) and the powers given to it by sections 100(1) and 105 of the Local Government Act 2000(c):

PART I**General****Name, commencement and application**

1.-(1) The name of these Regulations is the Local Authorities (Allowances for Members of County and County Borough Councils and National Park Authorities) (Wales) Regulations 2002 and they shall come into force on 9th August 2002.

(2) These regulations apply to Wales only.

Interpretation**2. In these Regulations -**

"alternative arrangements" ("trefniadau amgen") means arrangements for the discharge of the functions of an authority which are of a type described in section 32(1) of the 2000 Act;

- (a) 1989 c. 42. Section 18(3A) was inserted by section 99(3), (7) of the Local Government Act 2000 (c. 22).
(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).
(c) 2000 c. 22.

ystyr "blwyddyn" ("year") yw deuddeg mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

ystyr "bwrdd" ("board") yw pwylgor awdurdod lleol a sefydlwyd o dan reoliad 4(1)(a) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001(a);

ystyr "Deddf 1972" ("the 1972 Act") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972(b);

ystyr "Deddf 2000" ("the 2000 Act") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr "dyletswydd a eithrir" ("excluded duty") yw dyletswydd a gymeradwywyd y mae aelod o awdurdod sy'n gynghorydd yn cael cydnabyddiaeth mewn perthynas â hi heblaw o dan gynllun a wnaed o dan Ran II o'r Rheoliadau hyn;

ystyr "dyletswydd a gymeradwywyd" ("approved duty") yw -

(a) presenoldeb mewn cyfarfod o'r awdurdod neu o unrhyw bwylgor yr awdurdod neu o unrhyw gorff y mae'r awdurdod yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddo neu unrhyw bwylgor corff o'r fath;

(b) presenoldeb mewn cyfarfod o unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r awdurdod yn aelod ohono;

(c) presenoldeb mewn unrhyw gyfarfod arall yr awdurdodir ei gynnal gan yr awdurdod neu gan bwylgor o'r awdurdod neu gan gyd-bwylgor o'r awdurdod ac un neu fwy o awdurdodau eraill;

(ch)dyletswydd yr ymgymrir â hi at ddibenion cyflawni swyddogaethau gweithrediaeth neu mewn cysylltiad â'u cyflawni os yw'r awdurdod yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth o fewn ystyr "executive arrangements" yn Rhan II o Ddeddf 2000;

(d) dyletswydd yr ymgymrir â hi yn unol â rheol sefydlog sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelod neu aelodau fod yn bresennol pan fydd dogfennau tendro yn cael eu hagor;

(dd)dyletswydd yr ymgymrir â hi mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaeth gan yr awdurdod sy'n galluogi neu'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod archwilio neu awdurdodi archwiliad o safle;

(e) presenoldeb mewn unrhyw ddigwyddiad hyfforddiant neu ddatblygu a gymeradwywyd gan yr awdurdod neu gan ei weithrediaeth neu ei fwrrd; ac

(f) unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwyir gan yr awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd arall o ddosbarth a gymeradwyir felly, ac yr ymgymrir â hi

"approved duty" ("dyletswydd a gymeradwywyd") means -

- (a) attendance at a meeting of the authority or of any committee of the authority or of any body to which the authority makes appointments or nominations or of any committee of such a body;
- (b) attendance at a meeting of any association of authorities of which the authority is a member;
- (c) attendance at any other meeting the holding of which is authorised by the authority or by a committee of the authority or by a joint committee of the authority and one or more other authorities;
- (d) a duty undertaken for the purpose of or in connection with the discharge of the functions of an executive where the authority is operating executive arrangements within the meaning of Part II of the 2000 Act;
- (e) a duty undertaken in pursuance of a standing order which requires a member or members to be present when tender documents are opened;
- (f) a duty undertaken in connection with the discharge of any function of the authority which empowers or requires the authority to inspect or authorise the inspection of premises;
- (g) attendance at any training or developmental event approved by the authority or its executive or board; and
- (h) any other duty approved by the authority, or any other duty of a class so approved, undertaken for the purpose of, or in connection with, the discharge of the functions of the authority or of any of its committees.

"authority" ("awdurdod") means a county council, a county borough council or a National Park authority;

"board" ("bwrdd") means the committee of a local authority established under regulation 4(1)(a) of the Local Authorities (Alternative Arrangements)(Wales) Regulations 2001(a);

"committee" ("pwylgor") includes a sub-committee;

"controlling group" ("grwp rheoli") means a political group:

- (a) in an authority operating executive arrangements:
 - (i) where those arrangements take the form of a leader and cabinet

(a) O.S. 2001/2284 (Cy.173).

(b) 1972 p. 70.

(a) S.I. 2001/2284 (W.173)

at ddibenion cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu unrhyw un o'i bwylgorau neu mewn cysylltiad â'u cyflawni;

ystyr "grŵp gwleidyddol arall" ("other political group") yw grŵp gwleidyddol heblaw grŵp rheoli neu grŵp gwrbbleidiol mwyaf (os o gwbl) sy'n cynnwys dim llai na 10 y cant o aelodau'r awdurdod hwnnw;

ystyr "grŵp gwrbbleidiol mwyaf" ("largest opposition group") yw grŵp gwleidyddol heblaw grŵp rheoli sydd â nifer fwy o aelodau nag unrhyw grŵp gwleidyddol arall yn yr awdurdod;

ystyr "grŵp rheoli" ("controlling group") yw grŵp gwleidyddol:

(a) mewn awdurdod sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth:

(i) pan fydd y trefniadau hynny'n cymryd ffurf arweinydd a gweithrediaeth gabinet;

(ii) gyda maer a gweithrediaeth gabinet; neu

(iii) gyda maer a rheolwr cyngor; neu

(b) mewn awdurdod sy'n gweithredu trefniadau amgen;

pan fydd unrhyw rai o'i aelodau yn ffurfio rhan o weithrediaeth neu fwrdd fel a geir yn (a) neu (b) uchod.

ystyr "gweithrediaeth" ("executive") yw gweithrediaeth awdurdod mewn ffurf a bennwyd yn adrannau 11(2) i (5) o Ddeddf 2000;

mae "pwyllgor" ("committee") yn cynnwys is-bwylgor;

ystyr "pwyllgor trosolygu a chraffu" ("overview and scrutiny committee") yw pwyllgor yr awdurdod y mae ganddo'r pwerau a nodir yn adran 21(2) a (3) neu 32 (1) o Ddeddf 2000;

ystyr "trefniadau amgen" ("alternative arrangements") yw trefniadau i gyflawni swyddogaethau awdurdod o'r math a ddisgrifir yn adran 32(1) o Ddeddf 2000; ac

mae i "trefniadau gweithrediaeth" yr ystyr a roddir i "executive arrangements" gan adran 10(1) o Ddeddf 2000.

Awdurdodau perthnasol a ragnodwyd

3. Rhagnodir cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn awdurdodau perthnasol at ddibenion adran 100(1)(b) o Ddeddf 2000.

executive;

(ii) with a mayor and cabinet executive; or

(iii) with a mayor and council manager; or
(b) in an authority operating alternative arrangements;

where any of its members form part of an executive or board as in a) or b) above.

"excluded duty" ("dyletswydd a eithrir") means an approved duty in respect of which a member of an authority who is a councillor receives remuneration otherwise than under a scheme made under Part II of these Regulations;

"executive" ("gweithrediaeth") means the executive of an authority in a form as specified in sections 11(2) to (5) of the 2000 Act;

"executive arrangements" ("trefniadau gweithrediaeth") has the meaning given by section 10(1) of the 2000 Act;

"largest opposition group" ("grwp gwrbbleidiol mwyaf") means a political group other than a controlling group which has a greater number of members than any other political group in the authority;

"member" ("aelod") includes a member of a committee or sub-committee;

"other political group" ("grwp gwleidyddol arall") means a political group other than a controlling group or the largest opposition group (if any) which comprises not less than ten per cent of the members of that authority;

"overview and scrutiny committee" ("pwyllgor trasolygu a chraffu") means a committee of the authority which has the powers set out in sections 21(2) and (3) or 32 (1) of the 2000 Act;

"the 1972 Act" ("Deddf 1972") means the Local Government Act 1972(a);

"the 2000 Act" ("Deddf 2000") means the Local Government Act 2000; and

"year" ("blwyddyn") means the twelve months ending with 31st March.

Prescribed relevant authorities

3. County councils, county borough councils and National Park authorities are prescribed as relevant authorities for the purposes of section 100(1)(b) of the 2000 Act.

(a) 1972 c. 70

Cynlluniau ar gyfer Lwfansau Cynghorwyr**Dehongli**

4. -(1) Yn ddarostyngedig i baragraff 2(b), dehonglir cyfeiriadau yn y Rhan hon at aelod awdurdod sy'n gynghorydd mewn perthynas ag awdurdod Parc Cenedlaethol fel cyfeiriadau at aelod o'r awdurdod hwnnw a benodwyd gan gyngor sir neu fwreistref sirol neu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall.

(2) At ddibenion y Rhan hon -

- (a) mae aelodau awdurdod i'w trin fel rhai wedi'u rhannu'n grwpiau gwleidyddol os ymdrinnir â hwy felly at ddibenion adran 15 (cydbwysedd gwleidyddol ar bwylgorau a.y.b) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989; a
- (b) bydd cyfnod swydd aelod o awdurdod (heblaw awdurdod Parc Cenedlaethol) sydd yn gynghorydd yn dechrau ar y dyddiad y mae'r aelod hwnnw'n gwneud datganiad ei fod yn derbyn y swydd honno o dan adran 83(1) o Ddeddf 1972.

Cynlluniau lwfans

5.-(1) Rhaid i bob awdurdod wneud cynllun yn unol â'r Rheoliadau hyn ar gyfer talu lwfansau mewn perthynas â'r flwyddyn gyfredol a'r blynnyddoedd dilynol.

(2) Pan ddiddymir cynllun yn unol â rheoliad 6(1), cyn i'r diddymiad ddod yn effeithiol rhaid i'r awdurdod wneud cynllun pellach am y cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad y mae'r diddymiad yn dod yn effeithiol.

Diwygio cynlluniau

6. -(1) Gellir diwygio neu ddiddymu cynllun a wneir o dan y Rhan hon ar unrhyw adeg.

(2) Os oes diwygiad i gael ei wneud sy'n effeithio ar lwfans sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn y gwneir y diwygiad ynddi, caiff y cynllun ddarparu bod yr hawl i lwfans o'r fath yn gymwys i fod yn effeithiol o ddechrau'r flwyddyn y gwneir y diwygiad ynddi neu,

- (a) os bydd y diwygiad yn effeithio ar lwfans o'r fath a grybwylir yn rheoliad 7 neu 8, bod mewn perthynas â phob un o'r cyfnodau -
 - (i) sy'n dechrau gyda diwrnod cyntaf y flwyddyn a diweddu ar y diwrnod o flaen hwnnw y mae'r diwygiad cyntaf yn y flwyddyn honno'n dod yn effeithiol, a
 - (ii) sy'n dechrau gyda'r diwrnod y mae'r diwygiad yn dod yn effeithiol a diweddu ar y diwrnod o flaen hwnnw y mae'r diwygiad

Schemes for Councillors' Allowances**Interpretation**

4. -(1) Subject to paragraph (2)(b), references in this Part to a member of an authority who is a councillor shall be construed in relation to a National Park authority as references to a member of that authority appointed by a county or county borough council or by the National Assembly for Wales unless the context requires otherwise.

(2) For the purposes of this Part -

- (a) members of an authority are to be treated as divided into political groups if they are so treated for the purposes of section 15 (political balance on committees etc) of the Local Government and Housing Act 1989; and
- (b) the term of office of a member of an authority (other than a National Park authority) who is a councillor shall begin on the date on which that member makes a declaration of acceptance of that office under section 83(1) of the 1972 Act.

Allowance schemes

5.-(1) Each authority shall make a scheme in accordance with these Regulations for the payment of allowances in respect of the current year and subsequent years.

(2) When a scheme is revoked in accordance with regulation 6(1), an authority shall before the revocation takes effect make a further scheme for the period beginning with the date on which the revocation takes effect.

Amendment of schemes

6.-(1) A scheme made under this Part may be amended or revoked at any time.

(2) Where an amendment is to be made which affects an allowance payable for the year in which the amendment is made, the scheme may provide for the entitlement to such allowance to apply with effect from the beginning of the year in which the amendment is made and,

- (a) if the amendment affects such an allowance as is mentioned in regulation 7 or 8, in relation to each of the periods -
 - (i) beginning with the first day of the year and ending with the day before that on which the first amendment in that year takes effect, and
 - (ii) beginning with the day on which an amendment takes effect and ending with the day before that on which the next

nesaf yn dod yn effeithiol, neu (os nad oes un) gyda diwrnod olaf y flwyddyn,

bydd yr hawl i gael lwfans o'r fath yn hawl i gael taliad o'r gyfran honno o swm y lwfans o dan y cynllun fel y mae'n effeithiol yn ystod y cyfnod perthnasol fel y mae'r nifer o ddyddiau yn y cyfnod yn cyfateb i nifer y dyddiau yn y flwyddyn;

(b) os bydd y diwygiad yn effeithio ar lwfans o'r fath fel a grybwylir yn rheoliad 9, bod yr hawl i'r lwfans hwnnw yn hawl i daliad o swm y lwfans o dan y cynllun fel y mae'n effeithiol pan gyflawnir y ddyletswydd.

Lwfansau sylfaenol

7.-(1) Rhaid i gynllun a wneir o dan y Rhan hon ddarparu bod taliad yn cael ei wneud ar gyfer pob blwyddyn y mae'r cynllun yn berthnasol iddi lwfans ("lwfans sylfaenol") i bob aelod o'r awdurdod sy'n gynghorydd a rhaid i swm y lwfans hwnnw fod yr un fath â swm i bob un o'r aelodau hynny.

(2) Rhaid i'r cynllun ddarparu, os bydd cyfnod swydd aelod yn dechrau neu'n dod i ben heblaw ar ddechrau neu ar ddiweddu blwyddyn, bydd hawl yr aelod hwnnw yn hawl i gael taliad o'r gyfran o'r lwfans sylfaenol y mae'r nifer o ddyddiau y mae cyfnod swydd yr aelod fel cyngħorjedd yn ystod y flwyddyn honno yn eu dwyn i nifer y dyddiau yn y flwyddyn honno.

(3) Os bydd cynllun yn cael ei ddiwygio fel a grybwylir ym mharagraff (2) o reoliad 6 ac nad yw cyfnod swydd aelod sy'n gynghorydd yn parhau drwy'r cyfnod llawn a grybwylir yn is-baragraff (a)(i) neu (ii) o'r paragraff hwnnw, rhaid i'r cynllun ddarparu bod hawl unrhyw aelod o'r fath o dan y rheoliad hwn i gael taliad o'r gyfran o'r lwfans sylfaenol y gellir ei briodoli i bob cyfnod o'r fath y mae'r nifer o ddyddiau y mae cyfnod swydd yr aelod fel cyngħorjedd yn parhau y cyfnod hwnnw yn cyfateb i nifer y dyddiau yn y cyfnod.

(4) Rhaid i gynllun a gaiff ei baratoi o dan y Rhan hon ddarparu na fydd mwy nag un lwfans sylfaenol yn daladwy i aelod o awdurdod.

Lwfansau cyfrifoldeb arbennig

8.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), caiff cynllun a wneir o dan y Rhan hon ddarparu, yn unol â pharagraff (3), ar gyfer taliad am bob blwyddyn y mae'r cynllun yn berthnasol iddi lwfans ("lwfans cyfrifoldeb arbennig") i'r aelodau hynny o'r awdurdod sydd yn gynghorwyr y mae ganddynt gyfrifoldebau arbennig o'r fath mewn perthynas â'r awdurdod fel y pennir hwy yn y cynllun ac y maent o fewn un neu fwy o'r categoriâu canlynol -

(a) maer etholedig awdurdod sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth ar ffurf maer a chabinet;

amendment takes effect, or (if none) with the last day of the year,

the entitlement to such an allowance shall be to payment of such proportion of the amount of the allowance under the scheme as it has effect during the relevant period as the number of days in the period bears to the number of days in the year; or

(b) if the amendment affects such an allowance as is mentioned in regulation 9, the entitlement to such an allowance shall be to payment of the amount of the allowance under the scheme as it has effect when the duty is carried out.

Basic allowances

7.-(1) A scheme made under this Part shall provide for the payment for each year to which the scheme relates of an allowance ("basic allowance") to each member of the authority who is a councillor and the amount of such allowance shall be the same for each such member.

